

Llawlyfr Sut i gynnal Archwiliad Cynladwyedd

Y Cyfarwyddyd:

Cynnal Archwiliad Cynladwyedd ar gyfer eich clwb, gan nodi dau faes i'w gwella. Ymchwilio i'r opsiwn mwyaf ymarferol i'w weithredu yn eich clwb a llunio adroddiad ar eich canfyddiadau ynghylch pam y gwnaethoch y penderfyniad hwn. Creu adroddiad ar effaith ynghylch y canlyniadau ar ôl treialu a gweithredu'r newid o ran cynladwyedd o fewn 3 mis i'r UM.

Sut i gynnal Archwiliad Cynladwyedd

Beth yw Archwiliad Cynladwyedd?

Yn lle taflu dartiau neu fwrw iddi'n ddi-gyfeiriad, y ffordd fwyaf effeithlon o wneud hyn yw datblygu strategaeth gynladwyedd yn seiliedig ar ddata, lefel diddordeb yn ogystal â rhywfaint o *Googlo*. Yn y pen draw, mae gwastraffu amser, arian ac egni ar strategaeth lai effeithlon neu ddefnyddiol yn niweidio amcanion eich tîm o fod yn fwy cynaliadwy.

Ffordd sicr o lunio strategaeth gynladwyedd effeithiol yw trwy gynnal archwiliad cynladwyedd. Diben archwiliad cynladwyedd yw edrych y tu mewn i'ch tîm er mwyn penderfynu beth yw'r ffordd fwyaf pwerus o arfer cynladwyedd.

Mae archwiliad yn ymrwymiad; mae'n anoddach na dim ond dewis rhywbeth a phenderfynu ei leihau. Gall archwiliadau gymryd wythnosau, neu hyd yn oed misoedd, i'w cwblhau ac mae angen tîm arweinyddiaeth cryf arnynt i'w gyrru ymlaen. Fodd bynnag, os ydych chi o ddifrif ynglŷn â strategaeth gynladwyedd o fewn eich tîm, mae archwiliadau'n cyflawni canlyniadau.

Archwiliad yw'r ffordd orau o sicrhau eich bod yn mynd i'r afael â'r camau cynaliadwyedd y dylech fod yn ymdrin â nhw. Mae tystiolaeth fod y dull hwn yn eich helpu i ddod o hyd i'r hyn sydd bwysicaf i'ch tîm, gan ei blethu i strwythur eich prosesau o ddydd-i-ddydd.

Fel man cychwyn, ystyriwch gylch bywyd y cynhyrchion a'r nwyddau rydych chi'n eu prynu a'u defnyddio yn eich tîm. O gyfarpar i boteli dŵr plastig, sut ydych chi'n lleihau

ôl troed eich cynnyrch - a oes gennych chi raglen cymryd-yn-ôl, partner ailgylchu, neu rywbeth arall?

Methodoleg

Y peth cyntaf yw Casglu Data. Penderfynwch ble mae'r tîm yn sefyll o ran cynnaladwyedd ar hyn o bryd. Bydd cyfarfodydd, arolygon a 'phenderfynu ar anghenion' yn ddefnyddiol yma. Dylech gwrdd â phob aelod neu gynnal cyfres o grwpiau ffocws a gweithio allan yr hyn rydych chi fel tîm yn ei wneud sy'n cael effaith negyddol ar gynnaladwyedd. Er enghraifft, a yw'r tîm yn creu gwastraff diangen? Gall hyn fod mewn mwy nag un maes. Po fwyaf o feysydd y byddwch chi'n eu nodi i'w harchwilio fel materion cynnaladwyedd posib, yr hawsaf fydd hi i ganfod dau, yna penderfynu pa un o'r ddau rydych chi, fel tîm, am fynd ati i'w ddatrys.

Yn y bôn, mae angen i chi greu dogfen sy'n dangos yr holl feysydd rydych chi wedi'u nodi fel rhai 'gwastraffus' neu y gellid eu gwella gydag atebion / opsiynau mwy cynaliadwy.

Gostwng

Arferion sydd â'r nod o leihau adnoddau a chostau yw dulliau gostwng. Unwaith y byddwch chi wedi penderfynu ar adnoddau i'w lleihau yn sgil casglu data, nawr mae'n bryd lleihau'r hyn sy'n cael ei ddefnyddio. Rydym yn argymhell ar y pwynt hwn y dylech chi ddechrau creu amcanion sy'n cynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA). Mae dangosyddion yn cymharu metrigau â gweithgareddau eich tîm. Mae DPA yn cynorthwyo ag adrodd yn ôl a chofnodi ymdrechion cynnaladwyedd wrth olrhain cynnydd dros amser.

Nodau cynaliadwyedd yw'r ffactorau ysgogol, a chanlyniad terfynol eich archwiliad, gobeithio. Pan fyddwch chi'n gweld cwmnïau yn sôn am "Carbon Niwtral erbyn 2025!" neu "Ynni Adnewyddadwy 100% erbyn 2040!" nodau cynnaladwyedd yw'r rheiny.

Mae bod ag amcan penodol yn cadw pawb ar y trywydd iawn ac wedi ymrwymo i'r nod. Meddyliwch am dimau neu brosiectau rydych chi wedi bod yn rhan ohonyn nhw oedd ag amcanion neu hebddynt. Pa un oedd yn fwy effeithiol?

Gwaelodlinau a Meysydd Ffocws

Yn yr adran hon, byddwch chi'n dysgu sut i ddarganfod beth ddylech chi fod yn ei leihau, sef eich **maes ffocws**. Byddwch hefyd yn dysgu am osod eich amcan yn erbyn gwaelodlin. Er mwyn gwella, rhaid bod gennych chi fan cychwyn. Y gwaelodlin yw eich man cychwyn.

Os ydych chi wedi sefydlu'ch cynllun yn gywir, mae'n debygol y byddwch chi'n canolbwyntio ar faes amgylcheddol penodol, fel lleihau eich defnydd o ynni neu wrthbwysu carbon.

Dewiswch ynni, gwastraff, dŵr, chwaraewyr tîm sy'n cyfranogi, unrhyw faes rydych chi am ganolbwyntio arno ar gyfer cynaladwyedd.

Enghreifftiau Da: Lleihau'r defnydd o Ynni, Lleihau Dŵr, Nifer y Chwaraewyr Tîm sy'n Ymwneud â Chynnaladwyedd, Nifer y Cynhyrchion Cynaliadwy a brynwyd, Sawl pwys o gynnyrch a brynwyd o Fferm Leol, Gwyro Gwastraff.

Enghreifftiau Gwael: "Yr Amgylchedd." Mae'n eithaf anodd dewis maes "anghywir" oherwydd mae mynd ati i ddewis maes yn eich helpu i ganolbwyntio ar yr hyn rydych chi'n ei wneud. Gwnewch y maes mor glir â phosib. Gall hyd yn oed "ynni" fod yn eang weithiau. Trydan? HVAC?

Mae'r **gwaelodlin** yn ymwneud â rhifau. Beth yw'r rhif rydych chi'n ceisio'i guro? Dyma'ch man cychwyn i weithio tuag at eich nod.

Wrth fynd ati i ddewis gwaelodlin, gall fod yn ddefnyddiol edrych ar fisoedd neu flynyddoedd blaenorol. Os nad oes gennych chi unrhyw ddata blaenorol fel man cychwyn, edrychwch ar eich arferion lleihau.

Nid oes angen curo'r rhif o reidrwydd chwaith, gallai fod mai eich gwaelodlin yw'r un gyntaf a osodwyd ar gyfer eich tîm. Er enghraifft, fe allech chi benderfynu bod 50% o'r poteli dŵr a brynir dros dymor yn cael eu hailgylchu.

Rhif Gostyngiad

Nid yw'r "o 10%" rydych chi'n ei weld yn cael ei atodi at nod fel "Lleihau Gwastraff o 10%" yn dod o'r awyr. Penderfynwch beth yw'r ffordd orau i ddewis rhif gostyngiad sydd o fewn eich cyrraedd yn ymarferol. Mae gweld nodau'n cael eu cyflawni yn cynnal cymhelliant yn y tymor hir ac yn cynyddu ymwybyddiaeth.

Targed ar gyfer Dyddiad Cwblhau

Erbyn pryd ydych chi am i'r nod hwn gael ei gyflawni? Beth sy'n uchelgeisiol a beth sy'n rhy agos i fod yn werthfawr?

Atebolrwydd, Systemau ac Olrhain Nodau

Mae'r nod wedi'i osod! Gadewch i ni sicrhau eich bod chi'n ei gyrraedd.

Rydym yn argymhell yn ystod y cam hwn eich bod yn dechrau defnyddio taenlen Excel i olrhain eich cynnydd yn erbyn eich nodau.

Creu Systemau

Unwaith y byddwch chi wedi cyhoeddi'r nod cynladwyedd, dechreuwch roi system ar waith ar gyfer atebolrwydd. Dylai'r system hon gynnwys adborth (gweler isod), olrhain a rhestr o bobl sy'n atebol.

Os oes gennych chi sawl nod, gwnewch hyn ar gyfer pob un.

Cyfathrebu Cynnydd

Mae angen i chi allu cyfathrebu pan fydd nodau'n digwydd, beth yw'r dyddiadau gorffen a sut i wella ar hynny. Mae cyfathrebu yn ôl ac ymlaen â'r tîm sy'n cwblhau'r mentrau yn eu cadw ar y trywydd iawn. Mae'n bwysig cyfleu disgwyliadau, beth fydd yn digwydd pan gyflawnir y nod a beth fydd yn digwydd os na chaiff ei gyflawni.

Trefnu Cyfarfodydd Rheolaidd er mwyn Cadw'n Gyfoes

Pa bynnag nodau rydych chi wedi'u gosod, bydd cynnal cyfarfodydd yn rheolaidd i adolygu cynnydd yn helpu i'ch cadw ar y trywydd iawn, nodi unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud, ac olrhain cynnydd a wnaed eisoes.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyhoeddi a chyfathrebu'r cofnodion neu'r nodiadau o'r cyfarfodydd hyn i bawb sy'n ymwneud â'r amcanion. Nid oes angen i bawb fynychu'r

cyfarfodydd, ond dylai pawb fod yn ymwybodol o'r canlyniad, unrhyw newidiadau sydd eu hangen, neu ddiweddariadau o ran cynnydd a wnaed.

Dylech Drin Cynladwyedd fel y byddech chi'n Trin Nodau Eraill

Sut ydych chi'n trin nodau eraill yn eich tîm? Cynnal parti pan fyddwch chi'n eu cyflawni? Dilynwch yr un arferion yma. Yr amcan yw llunio'r nod i gyd-fynd â diwylliant presennol eich tîm. Sut olwg sydd ar atebolrwydd ar gyfer y nodau hyn? Defnyddiwch y wybodaeth sydd gennych eisoes am y nod i sicrhau eu bod yn gweithio i chi.

Rhannu eich Amcanion

Rydych chi wedi gweithio mor galed i gael y nodau cynaliadwyedd hyn ar waith. Rydych chi wedi gosod y gwaelodlin, y dyddiadau targed, y rhifau, a'r atebolrwydd. Nawr, sut fyddwch chi'n mynd ati i'w rhannu gydag aelodau eraill eich tîm, timau eraill, noddwyr a'r Brifysgol / UM yn eu cyfanrwydd?

Mae arferion gorau ar gyfer nodau cynladwyedd yn cynnwys cadw at eich diwylliant, penderfynu gyda phwy i'w rannu, dewis cyfrwng i'w rannu arno, pa mor aml i rannu, ac yn ystod pa gamau o'r broses i'w rhannu. Mae'n hynny'n gryn lawer o bethau i'w gwneud! Dewiswch pa rai o'r rhain y mae angen help arnoch chi i'w cyflawni neu sydd o ddiddordeb i chi er mwyn penderfynu ar eich nodau.

Dylech gynnwys tîm Marchnata a Chyfathrebu'r UM wrth wneud penderfyniadau a gweithio gyda nhw i lunio fframwaith ar gyfer rhannu. Fel arfer, bydd ganddyn nhw'r syniad gorau o ran pam y dylech chi hyrwyddo, ble i hyrwyddo a sut i fynd ati.

Perchnogaeth Tîm

Mae Perchnogaeth Tîm yn defnyddio ymgysylltiad ac atebolrwydd aelodau i leihau adnoddau a chyrraedd nodau. Mae aelodau'n cymryd perchnogaeth o ddulliau lleihau ac yn eu gwreiddio'n uniongyrchol mewn prosesau. Caiff dulliau lleihau eu pennu i aelodau ac aelodau'r pwyllgor.

Gan ddefnyddio tîm chwaraeon fel enghraifft ar gyfer rhannu perchnogaeth, mae'r Ysgrifennydd Cymdeithasol ar y Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am rannu'r diweddaraf ar gynaliadwyedd ar gyfryngau cymdeithasol ac o fewn y tîm. Mae'r capten a / neu'r is-gapten yn canolbwyntio ar y polisi teithio ac mae'r trysorydd yn gyfrifol am y 'gadwyn gyflenwi', hynny yw sicrhau bod pob pryniant yn gynaliadwy. Lle mae hyn yn anodd neu'n amhosibl, sut allwch chi ei wneud yn fwy cynaliadwy? A allwch chi ddod o hyd i'r un eitem yn y DU, er enghraifft, a lleihau'r ôl troed carbon?

Adrodd yn Ôl ar Ganfyddiadau eich Archwiliad

Felly nawr rydych chi wedi nodi o leiaf dau faes yn eich Clwb y gallech chi wella arnyn nhw o ran cynnaladwyedd, ac wedi ysgrifennu'r canfyddiadau gan ddefnyddio'r fethodoleg uchod mewn adroddiad ar ffurf archwiliad. Mae'r gwaith caled wedi'i wneud i raddau helaeth; nawr mae angen i chi ddewis fel tîm pa faes y byddwch chi'n canolbwyntio arno am weddill y flwyddyn / blynyddoedd a gweithredu'r nodau rydych chi wedi'u gosod allan yn yr adroddiad archwilio, a sut y byddwch yn symud ymlaen â'r dasg. Yn yr adran hon rydym yn disgwyl cael gwybodaeth ynghylch pam y gwnaethoch chi ddewis yr amcan penodol hwn ar gyfer yr archwiliad yn hytrach na'r lleill; a oedd hyn oherwydd ei fod yn fwy buddiol i'r amgylchedd na'r lleill? A yw'n haws ei weithredu fel man cychwyn; a oedd y lleill yn rhy ddud neu'n amhosibl ar hyn o bryd i'w defnyddio fel nod?

Adroddiad ar Effaith

Mae creu adroddiad ar effaith da yn rhan hanfodol o fesur effaith. Mae'n caniatáu i chi fel tîm edrych yn ôl, cyfleu'ch gwerthoedd a rhannu arfer da ag eraill, wrth drafod canlyniadau eich gwaith cynnaladwyedd er mwyn hyrwyddo diwylliant o ddysgu a thryloywder.

Yn y bôn, strategaeth gyfathrebu yw llunio adroddiad ar effaith, a ddefnyddir i gyfleu'r newid a grëwyd gan dîm trwy weithgaredd neu newid ymddygiad a sut y gwnaed hynny. Nid dim ond disgrifiad o weithgareddau'r tîm sy'n creu'r newid yw adroddiad ar effaith; dylai hefyd gynnwys dadansoddiad ynghylch faint o wahaniaeth a ddigwyddodd.

Nid oes rhaid i'r adroddiad ar effaith fod yn ddarn hir o waith, ond dylai fod yn glir ac yn gryno fel casgliad i'ch adroddiad archwilio, ynghyd â diweddariad ar ble mae'ch tîm erbyn hyn o gymharu â'r nod a osodwyd gennych ar y dechrau a faint o gynnydd sydd wedi cael ei wneud.

Er enghraifft, efallai bod eich tîm yn penderfynu eich bod am leihau'r angen i aelodau deithio i'r maes yn unigol mewn car ar gyfer pob gêm ymarfer. Fel rhan o'ch archwiliad, rydych chi'n darganfod y byddai 5 o'ch tîm fel arfer wedi cymryd eu car eu hunain, a byddai hynny wedi creu cyfanswm o filltiroedd. Nawr mae pob aelod o'ch tîm yn rhannu ceir, sydd wedi torri i lawr ar gyfanswm y milltiroedd. Mae hyn wedi cael effaith naill ai trwy arbed tanwydd, lleihau ôl troed carbon neu allyriadau (neu bob un o'r tri hyn).

Dyma'ch cyfle fel tîm i feddwl yn ofalus sut mae un newid bach wedi bod o fudd i'r amgylchedd ac wedi creu newidiadau o ran ymddygiad o fewn y tîm.